Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017: Sgrinio

Nodyn cyfarwyddyd

**Cyfeirnod: GN 078**

**Perchennog y ddogfen:** Pennaeth Busnes, Rheoleiddio a Thrwyddedu

## Beth yw diben y ddogfen hon?

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut i sgrinio prosiectau, cynlluniau a gweithgareddau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 ('Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr' o hyn ymlaen).

## Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon?

Mae'r cyfarwyddyd hwn ar gyfer unrhyw un sy'n dylunio prosiectau a gweithgareddau a allai effeithio ar yr amgylchedd dŵr.

Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth cydymffurfio â Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ategu unrhyw gais ar gyfer gweithgareddau a allai achosi dirywiad i gorff dŵr, neu atal hwnnw (neu ardaloedd gwarchodedig) rhag cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun rheoli basn afon.

Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn debygol y bydd angen i chi gyflogi ymgynghorydd sydd â phrofiad a chymwysterau addas i gynnal asesiad cydymffurfedd Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Efallai y bydd arnoch angen fewnbwn technegol arbenigol hefyd, yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r effeithiau posibl.

## Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ac adborth

Y Tîm Cynllunio Dŵr Integredig, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

## Hanes y fersiynau

| Fersiwn y ddogfen | Dyddiad cyhoeddi | Crynodeb o’r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | 26 Mehefin 2024 | Cyhoeddwyd y ddogfen |
| 2.0 | 5 Mehefin 2026 | Mân newidiadau o ran y testun |

Dyddiad adolygu: Rhagfyr 2028

I roi gwybod am faterion neu broblemau gyda’r canllawiau hyn, anfonwch neges e-bost i: guidance.development@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

# Sgrinio am gydymffurfedd â Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017

Rhaid i chi ystyried effeithiau posibl eich cynnig ar yr amgylchedd dŵr. Mae’r amgylchedd dŵr yn cynnwys pob afon, llyn, aber, dyfroedd arfordirol, a dŵr daear.

Mae ystyried risgiau posibl ac effeithiau cysylltiedig yn gynnar yn galluogi eu ‘dylunio allan’ drwy eu hosgoi. Mae hyn yn debygol o arbed amser ac arian i chi.

Os oes gan eich cynnig y potensial i achosi dirywiad, neu atal corff dŵr neu ardal warchodedig rhag cyflawni ei amcanion, **dim ond** os yw’n bodloni gofynion rheoliad 19 o Reoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 y gellir **caniatáu iddo fwrw ymlaen.**

# Camau asesu

Gall asesiad cydymffurfedd gynnwys hyd at dri cham:

- **Cam 1: Sgrinio**

  Mae’r cam hwn yn nodi’r derbynyddion y gallai eich cynnig effeithio arnynt. Gellir sgrinio allan unrhyw weithgareddau nad oes arnynt angen asesiad pellach ar y cam hwn. Bydd unrhyw weithgareddau sydd â’r potensial i effeithio ar yr amgylchedd dŵr yn cael eu sgrinio i mewn i’w hasesu ymhellach.

- **Cam 2: Cwmpasu**

  Bydd y derbynyddion a allai fod mewn perygl o ganlyniad i’ch cynnig yn cael eu nodi a’u dwyn ymlaen ar gyfer asesiad manwl pellach yng Ngham 3. Os nad ydych wedi nodi unrhyw dderbynyddion sydd mewn perygl, mae eich asesiad cydymffurfio â Rheoliadau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi ei gwblhau.

- **Cam 3: Asesiad manwl**

  Ystyriwch effeithiau posibl (e.e. maint a difrifoldeb) eich gweithgaredd ar y derbynyddion a nodwyd yng Ngham 2, a nodwch ffyrdd o osgoi, lleihau neu liniaru’r effeithiau hyn. Ceisiwch gasglu a allai’r gweithgaredd atal y corff dŵr ac unrhyw ardaloedd gwarchodedig rhag cyflawni eu hamcanion, neu achosi dirywiad yn statws y corff dŵr.

# Yr hyn y mae angen i chi ei wneud

Bydd angen i chi ddarparu digon o wybodaeth i ddangos nad oes gan eich cynnig y potensial i achosi dirywiad i gorff dŵr Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, na'i atal rhag cyflawni'r amcanion fel y'u nodir yn y cynlluniau rheoli basn afon. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar ein gwefan:Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli basn afon.

Gall cynnig gynnwys llawer o wahanol weithgareddau. Dylech gynnwys unrhyw beth sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr amgylchedd dŵr, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Efallai y bydd gan eich cynnig effaith gadarnhaol ar un elfen ansawdd, fel ffisigogemeg (dangosydd o ansawdd dŵr), ond mae angen i chi asesu o hyd a oes unrhyw effaith ar elfennau ansawdd eraill, megis hydromorffoleg. Gall eich cynnig effeithio ar fwy nag un corff dŵr.

Rhaid asesu pob gweithgaredd ar gyfer pob corff dŵr y gallai'r cynnig effeithio arno.

Dylech fod yn ymwybodol y gallai fod angen asesiad arall o hyd ar gynigion sy'n cael eu sgrinio allan yng Ngham 1 i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol eraill, e.e. asesiad rheoliadau cynefinoedd (Asesiadau rheoliadau cynefinoedd: diogelu safle Ewropeaidd [HTML] | LLYW.CYMRU).

# Sut i ddod o hyd i wybodaeth am gyrff dŵr

Mae corff dŵr yn rhan, neu'r cyfan, o afon, llyn, dŵr daear, aber, neu ddŵr arfordirol. Ar gyfer cyrff dŵr wyneb, caiff statws cyffredinol ei ddosbarthu gan ddefnyddio statws cemegol ac ecolegol. Mae statws ecolegol yn cynnwys elfennau ansawdd ffisigogemegol, bioleg a hydromorffoleg. Caiff statws dŵr daear ei ddosbarthu gan ddefnyddio elfennau ansoddol (e.e. cemegol) a meintiol (e.e. cydbwysedd dŵr).

Mae gan bob corff dŵr amcan o statws neu botensial 'da', oni bai fod dewis arall wedi ei bennu. Mae esboniad pellach ar y broses o osod amcanion ar gael yn y cynlluniau rheoli basn afon diweddaraf. Mae rhai cyrff dŵr wedi eu dynodi'n artiffisial neu wedi eu haddasu'n helaeth yn y cynlluniau rheoli basn afon. Mae'r rhain wedi eu pennu gyda'r nod o botensial da yn hytrach na statws da. Mae data cyrff dŵr, gan gynnwys amcanion, ar gael yn Arsylwi Dyfroedd Cymru.

Mae nifer sylweddol o gyrff dŵr yng Nghymru wedi eu dynodi'n ardaloedd gwarchodedig y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r ardaloedd hyn yn bwysig ar gyfer cadwraeth bywyd gwyllt, cyflenwad dŵr yfed, casglu pysgod cregyn, ac ymdrochi. Gallwch ddod o hyd i fap o ardaloedd gwarchodedig ar Arsylwi Dyfroedd Cymru, a gellir ei weld drwy ddewis yr haen gywir. Gallwch hefyd ddod o hyd i'r rhestr lawn ar gofrestr yr ardaloedd gwarchodedig: Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau rheoli basn afon 2021–2027: ardaloedd gwarchodedig.

# Trwyddedau a chaniatadau eraill

Efallai y bydd arnoch angen drwyddedau a chaniatadau eraill ar gyfer eich cynnig.

Gallwch ddod o hyd i gyngor am y trwyddedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y gallai fod arnoch eu hangen, a sut i wneud cais ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru.

Efallai y bydd angen awdurdodiadau a chaniatadau eraill gan gyrff penderfynu eraill ar gyfer eich cynnig hefyd, megis caniatadau cwrs dŵr cyffredin neu ganiatâd cynllunio.

Pan fydd CNC yn gwneud penderfyniadau, fel rhoi caniatadau, hawlenni a thrwyddedau, rhaid inni sicrhau bod y gweithgaredd yn cydymffurfio â Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Lloegr a Chymru) 2017 (deddfwriaeth.gov.uk). Mae gan gyrff cyhoeddus eraill, megis awdurdodau lleol, ddyletswyddau penodol o dan Reoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2017 hefyd.

# Cam 1: Sgrinio risg Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

**A allai eich cynnig effeithio ar yr amgylchedd dŵr?**

Diben 'Cam 1: Sgrinio' yw nodi a oes gan eich cynnig y potensial i effeithio ar yr amgylchedd dŵr. Bydd y cam hwn yn nodi unrhyw risgiau i dderbynyddion sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau arfaethedig. Dylech anelu at osgoi ac atal effeithiau posibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylech leihau neu liniaru effaith drwy ddylunio gofalus. Dylid cynnwys lliniaru priodol cyn gynted â phosibl wrth ddatblygu eich cynnig, a dylai hyn fod yn gymesur â graddfa'r effaith.

Gallwch ddefnyddio templed i'ch helpu i gwblhau'r sgrinio. Gallwch ofyn am gopi o'r templed gan: WFDWales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

## Cam 1: Rhoi gwybodaeth am y cynnig cyfan

Dylid cynnwys y canlynol:

- **Pob gweithgaredd unigol a gynigir.**
- **Pob cam** o'r gweithgareddau arfaethedig, gan gynnwys cyfnodau dros dro, ysbeidiol a pharhaol. Er enghraifft, adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw, a datgomisiynu wedi ei gynllunio.

Rhaid sgrinio gwaith arfaethedig sydd mor agos â phosibl at ddyluniadau 'fel y'u hadeiladwyd'. Efallai y bydd angen i chi gynnal Cam 1 eto os bydd eich cynnig yn newid.

# Cam 2: Nodi cyrff dŵr perthnasol i'w cynnwys wrth sgrinio risg

Gallwch ddefnyddio Arsylwi Dyfroedd Cymru i nodi cyrff dŵr perthnasol drwy lywio i ardal eich cynnig a defnyddio'r mapiau mwyaf cyfredol: cyrff dŵr afonydd neu ddalgylchoedd cyrff dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear, dyfroedd aberol neu arfordirol.

Bydd cyrff dŵr y dylid eu cynnwys yn 'Cam 1: Sgrinio' yn dibynnu ar y math o weithgaredd arfaethedig, a maint a graddfa'r effeithiau posibl. Er enghraifft, gallai adeiladu argae yng ngheg yr afon fod ag ôl troed lleol, ond gall gael effeithiau llawer ehangach ar gynefinoedd a llwybrau mudo pysgod a rhywogaethau eraill ledled cyrff dŵr afon aberol ac i fyny'r afon. Am y rheswm hwn, dylech ystyried y canlynol:

- Pob corff dŵr yr effeithir arno'n uniongyrchol gan y cynnig, e.e. y cyrff dŵr lle bwriedir y gweithgaredd, gan gynnwys cyrff dŵr daear sydd o dan ardal y prosiect arfaethedig.
- Unrhyw gyrff dŵr sydd wedi eu cysylltu'n hydrolegol y gallai'r cynnig effeithio arnynt yn anuniongyrchol, e.e. drwy achosi rhwystr i lwybrau mudo pysgod.
- Graddfa'r effaith – ar gyfer datblygiadau mwy mewn cyrff dŵr aberol ac arfordirol. Mae angen diffinio'r parth dylanwad trwy waith modelu hydrodynamig.
- Cyrff dŵr nad ydynt wedi eu rhestru fel cyrff dŵr ar Arsylwi Dyfroedd Cymru. Mae rhai darnau o ddŵr yn rhy fach i'w hadnabod fel corff dŵr ffurfiol, megis rhai ffosydd draenio, ffosydd, nentydd, neu forlynnoedd lled hallt. Mae'r rhain yn dal i gael eu gwarchod yn gyfreithiol rhag llygredd, addasu a thynnu dŵr, a gallant effeithio'n anuniongyrchol ar gyrff dŵr.

## Sut i ddod o hyd i wybodaeth am gyrff dŵr

- Ewch i Arsylwi Dyfroedd Cymru.
- Dewiswch y map seiclo Rheoliadau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mwyaf cyfredol.
- Dewiswch haenau data a chyrff dŵr sy'n berthnasol i'ch cynnig.
- Gwiriwch y statws cyffredinol (OverallWB) a'r statws ar gyfer hydro / morffoleg (Hydro a Morph).
- Gwiriwch a ydyw'r corff dŵr wedi ei ddynodi fel un sydd wedi ei addasu'n sylweddol (HM_Desig).

Dylech chi bob amser ddefnyddio'r data dosbarthu diweddaraf o ran Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Cofnodwch ddyddiad yr wybodaeth dosbarthu corff dŵr o ran Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Dŵr yr ydych chi wedi ei defnyddio, yn ogystal â statws y corff dŵr a/neu ddalgylch y corff dŵr.

Ar gyfer cyrff dŵr nad ydynt wedi eu rhestru ar Arsylwi Dyfroedd Cymru fel cyrff dŵr, dylech dybio eu bod â statws 'da', a dylid asesu unrhyw ddirywiad o 'statws da' o ganlyniad i weithgaredd newydd.

Defnyddiwch yr wybodaeth berthnasol am gyrff dŵr yr ydych chi wedi ei chasglu i symud ymlaen i 'Cam 3: Asesiad sgrinio risg'.

## Cam 3: Asesiad sgrinio risg

Gweithiwch drwy'r cwestiynau canlynol i gwblhau sgrinio risg Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:

**Cwestiwn 1. A ydyw'r cynnig mewn, neu a allai effeithio ar gorff dŵr o statws cyffredinol uchel neu statws uchel o ran morffoleg (neu hydromorffoleg ar gyfer cyrff dŵr aberol ac arfordirol)?**

Bydd angen asesiad manwl ar unrhyw gynnig (gan gynnwys y rhai a restrir fel risg isel – gweler y rhestr isod) o fewn corff dŵr â statws cyffredinol uchel neu forffoleg â statws uchel, a dylech gysylltu â CNC i gael cyngor geomorffolegol arbenigol afonol neu arfordirol ar gwmpas yr asesiad manwl.

**Ydyw** – ewch i 'Cam 2: Cwmpasu'.

**Nac ydyw** – ewch i gwestiwn 2.

**Cwestiwn 2. A ydyw'r gweithgareddau arfaethedig a restrir isod yn rhai risg isel?**

**Ydyn** – ewch i gwestiwn 3.

**Nac ydyn** – ewch i Gam 2 a chwblhewch asesiad cwmpasu ar gyfer pob corff dŵr perthnasol / wedi ei sgrinio.

**Gweithgareddau risg isel:**

- O ran gollyngiadau i ddŵr, unrhyw eithriad cofrestredig neu drwydded rheolau safonol Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Darganfyddwch a oes angen trwydded arnoch ar gyfer gollyngiadau i ddŵr wyneb a dŵr daear.
- Gweithgareddau prif afonydd sydd wedi eu hesemptio neu eu heithrio o drwyddedau gweithgareddau perygl llifogydd CNC.
- Gweithgareddau trwyddedu morol Band 1.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein gwefan:Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedau a chaniatadau.

Sylwch mai dim ond ag awdurdodiadau CNC y mae'r rhestr hon yn ymwneud. Bydd angen i chi hefyd ystyried risg Rheoliadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer awdurdodiadau eraill, megis caniatadau cwrs dŵr cyffredin.

**Cwestiwn 3. A oes unrhyw botensial ar gyfer effeithiau cyfun a/neu gronnus?**

Gwiriwch a fydd unrhyw effeithiau cyfunol a/neu gronnus o'r cynnig newydd gyda phwysau presennol a gweithgareddau newydd eraill yn digwydd ar yr un pryd.

Gellir sgrinio allan y gweithgareddau a restrir fel rhai risg isel uchod fel rhai nad oes angen asesiad pellach arnynt yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion lle gall gweithgareddau weithredu gyda'i gilydd mewn corff dŵr i waethygu'r effeithiau, neu fod yn fwy tebygol o ddigwydd, e.e. tynnu dŵr sy'n lleihau'r gallu i wanedu, ac yn

gwaethygu effeithiau gollyngiad dŵr. Gallwch wirio am drwyddedau eraill CNC ar ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / A oes gan safle ganiatâd, trwydded neu esemptiad (Cofrestr Gyhoeddus), a gwybodaeth ddefnyddiol arall ar y Catalog data | MapDataCymru (llyw.cymru).

**Oes** – Ewch i Gam 2 a chwblhewch asesiad cwmpasu ar gyfer pob corff dŵr perthnasol / a sgriniwyd.

**Nac oes** – Cofnodwch yr holl wybodaeth yr ydych wedi ei chasglu, a'i chyflwyno ynghyd â'ch cais.

# Y camau nesaf

Os bydd unrhyw beth yn sgrinio i mewn, cwblhewch asesiad cwmpasu Cam 2.

Os bydd popeth yn sgrinio allan, cofnodwch eich canfyddiadau.

# Manylion cyswllt CNC

Cyfoeth Naturiol Cymru / Ein gwasanaeth i ddatblygwyr

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud cais am ddata amgylcheddol

Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio am drwydded amgylcheddol

Ffoniwch ni ar 0300 065 3000 (Llun-Gwener, 9am-5pm). Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Anfonwch neges atom ar ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

Neu llenwch y ffurflen i gysylltu â ni.